OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1514

# Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 5

## MATERION AMRYWIOL — ASIANTAETHAU

**Y sefyllfa ariannol**

**28.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig:

(a) rhedeg yr asiantaeth mewn modd sy'n debyg o sicrhau y bydd yn hyfyw yn ariannol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn ei datganiad o ddiben; a

(b) sicrhau bod cyfrifon digonol yn cael eu cynnal a chadw'n gyfoes ynglyn â'r asiantaeth.

(2) Os bydd yr awdurdod cofrestru yn gofyn amdanynt, rhaid i'r darparydd cofrestredig ddarparu i'r awdurdod cofrestru unrhyw wybodaeth a dogfennau y bydd yn ofynnol i'r awdurdod eu cael er mwyn ystyried hyfywedd ariannol yr asiantaeth, gan gynnwys —

(a) cyfrifon blynyddol yr asiantaeth wedi'u hardystio gan gyfrifydd;

(b) geirda oddi wrth fanc yn mynegi barn ar statws ariannol y darparydd cofrestredig;

(c) gwybodaeth am ddull ariannu'r asiantaeth a'i hadnoddau ariannol;

(ch) gwybodaeth am unrhyw gwmnïau cysylltiedig y corff; a

(d) tystysgrif yswiriant ar gyfer y darparydd cofrestredig o ran unrhyw rwymedigaeth y gallai'r darparydd fynd iddi mewn cysylltiad â'r asiantaeth o ran marwolaeth, anaf, atebolrwydd cyhoeddus, difrod neu unrhyw golled arall.